# Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD(2) 04-03 (DRAFT MIN)

Dyddiad: 20 Tachwedd 2003, am 9:15am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

*Yr Aelodau*

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed (Cadeirydd)
Jeff Cuthbert, Caerffili
David Davies, Mynwy
Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Preseli Sir Benfro
Sandy Mewies, Delyn
Lynne Neagle, Tor-faen
Gwenda Thomas, Castell-nedd
Owen John Thomas, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

*Y Swyddogion*
Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Steve George, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Peter Jones, Cynghorydd Cyfreithiol y Llywydd
Richard Penn, Cynghorydd Annibynnol ar Safonau

*Ymddiheuriadau*

Dim un

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd a chroesawodd aelodau'r Pwyllgor.

2. Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 2: Y Newyddion Diweddaraf a'r Camau sy'n Codi o STD(2) 03-03**

Papur – STD(02) 04-03(01)

3. Nododd y Pwyllgor y papur sy'n amlinellu'r hyn a wnaed yn erbyn y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol. Cwblhawyd pob un o'r camau gweithredu. Byddai'r papurau ar y Cod Ymddygiad Drafft a Rôl y Cynghorydd Annibynnol yn cael eu trafod ar wahân yn ddiweddarach yn ystod y Cyfarfod.

4. Câi'r Aelodau gyfle i adrodd yn ôl ar unrhyw sylwadau a wnaed gan gyfarfodydd o'r grwpiau gwleidyddol ynghylch y Seiri Rhyddion yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

**Eitem 3: Cofrestr Buddiannau'r Aelodau**

5. Cyflwynodd Clerc y Pwyllgor adroddiad llafar ar ei rôl fel Cofrestrydd Buddiannau'r Aelodau. Eglurodd fod y profiad a gafwyd o ddelio â chofrestru buddiannau yn ystod yr Ail Gynulliad wedi rhoi rhai syniadau i'r swyddogion ar wneud y ffurflenni cofrestru'n fwy defnyddiol ac yn haws i'r Aelodau eu llenwi. Gallai fod lle ar y ffurflen ei hun, o bosib, i gynnwys rhai canllawiau.

6. Byddai'r Ysgrifennydd yn dod â chynigion ymlaen ar gyfer ffurflen ddiwygiedig i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Yna câi barn y Pwyllgor ei chyfleu i'r Llywydd sy'n gyfrifol am bennu'r hyn sydd yn y ffurflenni cofrestru o dan Reol Sefydlog 4.

7. Cyfeiriodd Clerc y Pwyllgor hefyd at y sylw a roddwyd i'r Gofrestr yn y wasg yn ddiweddar yn sgil cyfeirio nifer o achosion at yr heddlu gan Swyddog Cyswllt y Cynulliad yn unol â'r protocol sy'n bodoli rhwng y Cynulliad a'r heddlu. Gan fod ymchwiliadau'n parhau i'r achosion hyn, nid oedd hi'n briodol i'w trafod.

8. Nododd y Pwyllgor adroddiad Clerc y Pwyllgor ac, yn ystod y drafodaeth, croesawyd adolygiad o'r ffurflenni cyfredol. Yn arbennig, gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth ystyried y canllawiau ar gofrestru tir ac eiddo ac a oeddent yn ddigon clir mewn perthynas ag eiddo a gâi ei ddefnyddio at ddibenion preswyl personol.

*Gweithredu:*

*Yr Ysgrifenyddiaeth i ddod â'r canlynol ymlaen:*
- *cynigion ar gyfer ffurflen ddiwygiedig i gofrestru buddiannau;*
- *cyngor ar y canllawiau ar gyfer tir ac eiddo.*

**Eitem 4: Y Seiri Rhyddion**

9. Wrth gyflwyno'r eitem atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bu i'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod diwethaf, drafod yr opsiynau a oedd ar gael iddynt a chytuno i ofyn i'r Cynulliad ailystyried ei benderfyniad ar y cynigion a wrthodwyd ym mis Tachwedd 2002. Fodd bynnag, teimlai Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r cynigion fedru sicrhau cefnogaeth y Cyfarfod Llawn petaent yn cael eu hailgyflwyno. Cytunodd yr Aelodau y byddent yn mynd ati i fesur cefnogaeth eu grwpiau o fewn eu pleidiau a gwahoddodd y Cadeirydd yr

Aelodau i adrodd yn ôl ar ganlyniad unrhyw drafodaethau y byddent wedi eu cynnal.

10. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

i. Er ei bod hi'n ymddangos y byddai mwyafrif Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi safbwynt y Pwyllgor, roedd cryn ansicrwydd a ellid sicrhau mwyafrif o ddau draean o'r bleidlais fel y bo'n ofynnol.

ii. Er bod risg sylweddol y gallai achos cyfreithiol gael ei ddwyn petai'r gofynion cyfredol yn parhau, roedd hi'n bwysig bod Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol, nid yn unig o'r perygl o achos cyfreithiol, ond hefyd y dadleuon ynghylch tegwch a'r egwyddor o blaid newid y rheolau presennol. Gallai tynnu sylw at fygythiad her gyfreithiol arwain yr Aelodau i wrthweithio yn erbyn yr hyn a gâi ei ganfod ganddynt hwy yn ymgais i fygwth.

iii. Roedd hi'n bwysig bod y Cynulliad yn cael ei weld yn gweithredu'n gyson ac yn deg ar faterion yn ymwneud â hawliau dynol, yn arbennig lle'r oedd grŵp "amhoblogaidd" o dan sylw.

iv. Roedd yna ddisgwyl y byddai pleidlais agored ar y mater mewn Cyfarfod Llawn. Mynegwyd y gobaith y byddai holl Aelodau'r Pwyllgor yn medru cefnogi penderfyniad y Pwyllgor ar y mater. Fodd bynnag, dywedodd Lynne Neagle ei bod am gadw ei hawl i bleidleisio yn ôl ei chydwybod ar ôl gwrando ar y ddadl.

v. Yn ogystal â'r angen i gyflwyno achos cynhwysfawr gerbron Aelodau'r Cynulliad, byddai'n fuddiol pe gellid cael barn gyfreithiol glir a phendant a fyddai'n egluro:

   a. y tebygolrwydd y byddai achos cyfreithiol yn llwyddo;
   b. pwy allai ddwyn achos cyfreithiol ac a fyddai angen i'r achos hwnnw gael ei ddwyn yn erbyn y Cynulliad fel corff corfforaethol neu yn erbyn Aelodau unigol;
   c. y gyfraith droseddol mewn perthynas â'n gofynion cyfredol; a
   d. amcangyfrif o'r gost a fyddai'n bosib i'r Cynulliad o amddiffyn unrhyw gamau a gymerwyd ganddo.

11. Yng ngoleuni'r drafodaeth a gafwyd cytunodd y Pwyllgor i wneud fel a ganlyn:

   i. ailddatgan ei benderfyniad i ofyn i'r Cynulliad ailystyried y cynigion a wrthodwyd ym mis Tachwedd 2002;

   ii. gofyn i'r Ysgrifenyddiaeth gynhyrchu papur gogyfer â holl Aelodau'r Cynulliad, yn pwysleisio'r rhesymau pam yr oedd y Pwyllgor yn

argymell cymryd y cam hwn (gan gynnwys y farn a'r cyngor cyfreithiol pellach a awgrymwyd yn ystod y drafodaeth);

iii. trafod papur yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfarfod nesaf cyn cyflwyno adroddiad terfynol gerbron y Cyfarfod Llawn.

*Gweithredu:*

*Yr Ysgrifenyddiaeth i gynhyrchu papur i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.*

**Eitem 5: Cod Ymddygiad Drafft**

Papur – STD(02) 04-03(02)

12. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Cod Ymddygiad Drafft a gafodd ei adolygu er mwyn cymryd i ystyriaeth y Penderfyniad ynglŷn â Chyflogau a Lwfansau newydd y Cynulliad ac er mwyn cymryd i ystyriaeth un o argymhellion Woodhouse ar gyfrinachedd materion yn ymwneud â'r Pwyllgor.

13. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cod diwygiedig gael ei gyflwyno yn awr gerbron y Cyfarfod Llawn i'w gymeradwyo.

**Gweithredu:**

*Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud trefniadau er mwyn i'r Cod gael ei ystyried mewn Cyfarfod Llawn.*

**Eitem 6: Rôl y Cynghorydd Annibynnol**

Papur – STD(02) 04-03(03)

14. Gan gyflwyno'r eitem, eglurodd y Cadeirydd y bu i'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod diwethaf, sefydlu swydd Comisiynydd Safonau statudol. Derbyniai'r Aelodau y byddai'r broses yn debygol o fod yn un hir a'i bod yn ddibynnol ar sicrhau cytundeb y Cyfarfod Llawn a'i chynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

15. Cytunodd y Pwyllgor mai'r cam nesaf oedd i'r Ysgrifenyddiaeth gynhyrchu papur cwmpasu yn amlinellu'r modelau posib ar gyfer Comisiynydd statudol a'r camau y byddai eu hangen i sefydlu'r swydd.

16. Yn dilyn y drafodaeth a gafwyd cytunodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

i. y dylai'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth bellach oddi wrth ystod o gyrff ar fanylion rôl y Comisiynydd statudol (ac y dylid archwilio ymhellach i'r posibilrwydd o drefnu cyswllt fideo ag Aelodau Senedd yr Alban neu Bwyllgor Safonau'r Alban);
ii. y dylai'r swyddogion, felly, ofyn am femoranda oddi wrth seneddau eraill y DU ar swyddogaeth Comisiynwyr neu Cynghorwyr Safonau yn y seneddau hynny; a
iii. chytuno i roi cyngor i'r Llywydd y dylai swydd bresennol y Cynghorydd Annibynnol fod yn destun gweithdrefn benodi gyhoeddus ac agored gyda golwg ar benodi ar y sail a bennwyd yn y papur hwn.

17. Cytunwyd ymhellach mai Cadeirydd y Pwyllgor a gâi ei enwebu gan y Pwyllgor ar gyfer unrhyw banel penodi petai'r Llywydd yn derbyn argymhellion y Pwyllgor y dylai swydd y Cynghorydd Annibynnol fod yn destun gweithdrefn benodi gyhoeddus ac agored.

*Gweithredu:*

*Yr Ysgrifenyddiaeth i wneud fel a ganlyn:*
- *gofyn am Femoranda gan gyrff perthnasol eraill;*
- *cynghori'r Llywydd ynglyn ag argymhellion y Pwyllgor ar benodi Comisiynydd/Cynghorydd Annibynnol dros dro;*
- *archwilio'r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd drwy gyswllt fideo ag Aelodau neu swyddogion perthnasol Senedd yr Alban.*

**Eitem 7: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

Papur – STD(02) 04-03(03)

18. Gan gyflwyno'r eitem, eglurodd y Cadeirydd mai drafft o bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor oedd y papur. Gofynnwyd am amser i gael dadl ar yr Adroddiad Blynyddol yn y Cyfarfod Llawn a chynigiwyd amser ddechrau mis Ionawr.

19. Roedd yr Aelodau yn fodlon ar y drafft yn amodol ar ei ddiwygio er mwyn ei gwneud hi'n glir bod Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor wedi diswyddo ar bwynt o egwyddor.

20. Roedd yr Aelodau yn barod i'r Cadeirydd agor a chau'r ddadl ynghylch yr adroddiad.

*Gweithredu:*

*Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r adroddiad drafft yn ôl y gofyn.*

**Eitem 8: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

21. Eglurodd y Cadeirydd nad oedd amserlen y Pwyllgor ar gyfer 2004 wedi'i chytuno'n ffurfiol eto. Mae dau gyfarfod wedi'u trefnu yn rhan o amserlen ddrafft y Gwanwyn, fodd bynnag, ar ddydd Iau 29 Ionawr a dydd Iau 18 Mawrth 2004. Er bod y dyddiadau hyn wedi'u nodi dros dro yn unig roedd hi'n annhebygol y byddent yn cael eu newid.

22. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 10:00am.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**